

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Blwyddyn archwilio: 2024

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4654A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Negeseuon allweddol	5
Adroddiad manwl	
Archwiliad o'r cyfrifon	7
Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau	9
Atodiadau	
Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf	19
Atodiad 2 – ffi archwilio	21
Atodiad 3 – risgiau mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon	22

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'm gwaith archwilio yn 2024 yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:
 - archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Senedd;
 - fy argyhoeddi fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd a'u bod yn unol â'r awdurdodau; a hefyd
 - fy argyhoeddi fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.
- 2 Rwy'n nodi fy nghanfyddiadau ar y cyfan dan y penawdau canlynol:
 - Archwiliad o'r cyfrifon
 - Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau
- 3 Digwyddodd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i gyfres eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, argyfwng yr hinsawdd, pwysau chwyddiannol ar gyllid cyhoeddus, prinderau yn y gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Hefyd, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin â gwaddol pandemig COVID-19. Cafodd fy rhaglen waith ei dylunio, felly, i roi'r sicrwydd gorau i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.
- 4 Fe wnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan mwyaf lle'r oedd yn bosibl, gan ddefnyddio technoleg, ond fe ailddechreuwyd peth gwaith archwilio ar y safle lle'r oedd yn briodol gwneud hynny. Mae'n anorfod bod hyn wedi cael effaith ar y ffordd yr ydym yn gwneud gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i wreiddio newidiadau cadarnhaol i'n ffyrdd o weithio.
- 5 Cafodd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig ei fyrhau o ddwy wythnos o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 15 Gorffennaf 2024. Fe ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 15 Gorffennaf 2024, gan olygu y cwrddwyd â'r terfyn amser. Mae hyn yn adlewyrchu cydymdrech wych gan fy staff a chan swyddogion yr Ymddiriedolaeth.
- 6 Mae ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad yn dal i gyd-fynd â'r heriau ar ôl y pandemig sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru ac fe'u cyflawnir yn unol â safonau archwilio INTOSAI¹.

¹ Sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw INTOSAI (International Organisation of Supreme Audit Institutions). Corff anllywodraethol ydyw a chanddo statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

- 7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau mwy manwl i'r Ymddiriedolaeth eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws gwaith sy'n dal ar y gweill, ond nad yw wedi cael ei gwblhau eto.
- 8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwneud fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2024.
- 9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2024 a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.
- 10 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe wnaethom ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 25 Mawrth 2025. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad yng nghyfarfod y Bwrdd ar 27 Mawrth a bydd pob aelod yn cael copi. Rydym yn annog yr Ymddiriedolaeth yn gryf i drefnu ei fod yn cael ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn trefnu bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.
- 11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu help a'u cydweithrediad trwy gydol fy archwiliad.

Negeseuon allweddol

Archwiliad o'r cyfrifon

- 12 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi rhoi barn archwilio ddiamod arnynt. Nid adnabu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i); fodd bynnag, fe ddygais rai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwella.
- 13 Adnabûm daliad ex gratia o £39,745 i uwch gyflogai na chafodd ei gymeradwyo yn unol â'r fframwaith awdurdodau ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ynglŷn â rheoleidd-dra'r trafodiad ariannol hwnnw. Nid adnabûm unrhyw faterion perthnasol eraill.
- 14 Cyhoeddais adroddiad o sylwedd ar y mater hwn hefyd.

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

- 15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:
- ar y cyfan, mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gael ei harwain a'i llywodraethu'n dda, gyda gweledigaeth a blaenoriaethau strategol eglur, systemau sicrwydd sy'n gwella, a threfniadau effeithiol ar gyfer rheoli ei materion ariannol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn dal i fodoli i sicrhau bod papurau'r Bwrdd a phwyllgorau, Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth, a'r Gofrestr Risgiau

Corfforaethol yn cynnwys yr wybodaeth y mae ei hangen i ategu prosesau craffu a phenderfynu effeithiol.

- mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau gweddol effeithiol i adnabod, cyflawni a monitro ei chyfleoedd i arbed costau. Fodd bynnag, mae dibyniaeth barhaus ar arbedion anghylchol ac ansicrwydd ynghylch incwm cytundebau hirdymor yn creu risgiau i'w chynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi diweddarau ei hamcanion llesiant ar ôl cyfnod hir heb adolygiad. Fodd bynnag, ni roddodd ystyriaeth lawn i'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud hynny. Yn y dyfodol, mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfle i ymgorffori'r amcanion llesiant yn ei fframwaith cynllunio corfforaethol i sicrhau eu bod yn dod yn ganolog i siapio penderfyniadau ynglŷn â darparu gwasanaethau, trawsnewid gwasanaethau, dyrannu adnoddau, a phennu targedau arbedion.

16 Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon

- 17
- Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth ar arian cyhoeddus. Trwy gyfrwng y cyfrifon y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion, a llifoedd arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny'n darparu barn ynglŷn â'u cywirdeb a defnyddio arian cyhoeddus yn briodol ('rheoleidd-dra').
- 18
- Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2024 yn nodi'r risgiau allweddol mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2023-24 a manylir ar y rhain ynghyd â sut yr aethpwyd i'r afael â hwy yn **Arddangosyn 4, Atodiad 3**.
- 19
- Caiff fy nghyfrifoldebau am archwilio'r cyfrifon eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2023-24

- 20
- Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi rhoi barn archwilio ddiamod arnynt. Nid adnabu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i); fodd bynnag, dygais rai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwella.
- 21
- Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio) i gael eu hystyried cyn fy mod yn cyhoeddi fy marn archwilio ynglŷn â'r cyfrifon. Fe wnaeth fy Arweinydd Ymgymeriad Archwilio Ariannol y materion hyn yn hysbys ar 10 Gorffennaf 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a wnaed yn hysbys i'r Pwyllgor Archwilio

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Camddatganiadau nas cywirwyd	Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd.
Camddatganiadau a gywirwyd	O ganlyniad i'n harchwiliad fe wnaed rhai addasiadau i'r datganiadau ariannol. Er bod rhai o'r cywiriadau'n berthnasol – mewn perthynas â'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol a'r datgeliadau Partïon Cysylltiedig – nid oedd unrhyw newid i sefyllfa cau cyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar y cyfan.

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Materion arwyddocaol eraill	Fe wnaethom ddau fater ychwanegol yn hysbys: • fe wnaed taliad setlo o £39,745.50 yn ystod 2023-24 i uwch aelod blaenorol o staff. Er bod y taliad hwn wedi cael ei ddatgelu'n llawn yn yr Adroddiad ar Gynabyddiaeth Ariannol ac wedi cael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cynabyddiaeth Ariannol yr Ymddiriedolaeth, adnabwyd, gan bod y taliad yn anghytundebol, y dylai fod wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru hefyd. Gan na wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r taliad hwn yn ôl-weithredol, fe wnaethom amodi ein barn ynglŷn â rheoleidd-dra ar gyfer 2023-24. • er bod y papurau gwaith wedi cael eu paratoi gan yr Ymddiriedolaeth yn barod ar gyfer dechrau'r broses archwilio, nid oedd rhai o'r papurau gwaith hyn yn darparu trywydd archwilio eglur i gofnodion cyfrifyddu sylfaenol, a arweiniodd at fwy o ymholiadau archwilio ac at dreulio mwy o amser ar y gwaith archwilio. Rydym yn ymwybodol, pan gaiff y ffenestr ar gyfer cynhyrchu ac archwilio'r cyfrifon ei lleihau ar gyfer 2024-25 a blynnyddoedd yn y dyfodol, y gallai hyn fod yn broblem bosibl o ran cydymffurfio â'r terfynau amser ar gyfer blynnyddoedd yn y dyfodol.

- 22 Fe gynhaliais adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan hefyd. Deuthum i'r casgliad bod yr wybodaeth gysoni parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2024 a bod y ffurflen wedi cael ei pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- 23 Mae fy archwiliad ar wahân o gyfrifon cronfeydd elusenol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2023-24 wedi cael ei gwblhau ac fe ddarparwyd barn ddiamod ar 30 Ionawr 2025.

Rheoleidd-dra Trafodiadau Ariannol

- 24 Rhaid i drafodiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid iddi fod â'r pwerau i gael yr incwm ac i ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan yr Ymddiriedolaeth y pwerau i'w cael neu eu hysgwyddo.
- 25 Adnabûm daliad ex gratia o £39,745 i uwch gyflogai na chafodd ei gymeradwyo yn unol â'r fframwaith awdurdodau, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ynglŷn â

rheoleidd-dra'r trafodiad ariannol hwnnw. Nid adnabûm unrhyw faterion perthnasol eraill.

- 26 Cyhoeddais adroddiad o sylwedd ar y mater hwn hefyd.
- 27 Mae gennyf y pŵer i osod adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â'm barnau pan fo arnaf eisiau amlygu materion. Lle mae'r Ymddiriedolaeth yn methu â chyflawni un o'i dyletswyddau ariannol – i adennill costau dros gyfnod o dair blynedd ac i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy – neu lle mae fy marn yn un amodol, byddaf yn cyhoeddi adroddiad o sylwedd.
- 28 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dwy ddyletswydd ariannol, ac roedd fy marnau'n ddiamod, felly ni chyhoeddais adroddiad o'r fath ar gyfer y materion hyn.

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

- 29 Mae'n ofynnol yn statudol fy mod yn fy argyhoeddi fy hun bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio'i hadnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus;
 - adolygu effeithiolrwydd trefniadau arbed costau'r Ymddiriedolaeth; ac
 - adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer pennu a monitro amcanion llesiant.
- 30 Caiff fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn eu nodi isod.

Asesiad strwythuredig

- 31 Digwyddodd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2024 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i gyfres ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, argyfwng yr hinsawdd, pwysau chwyddiannol ar gyllid cyhoeddus, prinderau yn y gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Hefyd, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin â gwaddol pandemig COVID-19. Yn fwy nag erioed, felly, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn sy'n gallu darparu sicrwydd ar eu cyfer hwy eu hunain, ar gyfer y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd da, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.
- 32 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar y canlynol: tryloywder, effeithiolrwydd a

chydlyniad y Bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; dull cynllunio corfforaethol; a dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol. Rhoddodd archwilywyr sylw hefyd i gynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion blaenorol.

Tryloywder, effeithiolrwydd, a chydlyniad y Bwrdd

- 33 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol, ac yn dryloyw. Rhoddais sylw arbennig i'r canlynol:
- Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd
 - Trefniadau i roi cymorth i gynnal busnes y Bwrdd
 - Strwythur, busnes, cyfarfodydd, a llifodd sicrwydd y Bwrdd a phwyllgorau
 - Ymrwymiad y Bwrdd i glywed gan staff, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill
 - Sgiliau'r Bwrdd, ei brofiadau, ei gydlyniad, a'i ymrwymiad i wella
- 34 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd yn dal i fod yn ymrwymedig i gynnal ei fusnes yn dryloyw, er bod nifer fach o gyfleodd o hyd i gynyddu mynediad y cyhoedd at fusnes y Bwrdd.
- 35 Mae cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw i alluogi'r cyhoedd i arsylwi'n rhithwir, ac fe drefnir bod recordiadau ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Mae dyddiadau a phapurau cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw, ac mae'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi'n fuan ar ôl cyfarfodydd. Er nad yw cyfarfodydd pwyllgorau'n cael eu ffrydio'n fyw, mae papurau'n cael eu cyhoeddi cyn cyfarfodydd. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion ar gyfer rhai pwyllgorau ar gael i'r cyhoedd fel rheol tan o leiaf ddau fi ar ôl cyfarfodydd. Mae'r trafodaethau yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a phwyllgorau'n agored a gonest, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu'n briodol trwy gadw materion cyfrinachol a sensitif ar gyfer sesiynau preifat. Er bod yr Ymddiriedolaeth bellach yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r eitemau ar yr agenda cyn cyfarfodydd preifat y Bwrdd a phwyllgorau, nid yw'n darparu crynodeb o'r trafodaethau ar gyfer y cyhoedd.
- 36 Mae'r Bwrdd yn parhau i fod â threfniadau effeithiol i roi cymorth i gynnal ei fusnes. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Reolau Sefydlog, Cynllun Dirprwy, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog cyfoes a hygyrch gyda thystiolaeth o gydymffurfio. Darperir diweddariadau chwemisol i'r Pwyllgor Archwilio ar y trefniadau ar gyfer rheoli datganiadau o fuddiant, rhoddion a lletygarwch, cydymffurfio â Chylchlythyrau Iechyd Cymru, a diweddaru polisïau. Fe wnaed cynnydd i sicrhau bod polisïau'n cael eu diweddaru a'u bod ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.
- 37 Ceir strwythur pwyllgorau priodol ac integredig, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau allweddol, ac yn ateb gofynion statudol. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor wedi'i ddiweddaru ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae pwyllgorau hefyd yn adolygu eu cylchoedd busnes yn rheolaidd. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n dal i gael eu cadeirio'n dda, ac mae aelodau'n dilyn moesau da mewn cyfarfodydd. Mae Aelodau Annibynnol yn craffu'n gadarn gyda

chydbwysedd da o her a chefnogaeth. Mae materion yn dal i gael eu croesgyfeirio'n dda rhwng pwyllgorau ac o bwyllgorau i'r Bwrdd.

- 38 Er y bu rhai gwelliannau, mae papurau'r Bwrdd a phwyllgorau'n dal i fod angen rhoi ffocws gwell ar faterion allweddol. Lle mae papurau'n nodi mentrau ar gyfer gwelliannau, mae angen iddynt gael eu hategu'n gyson gan gamau gweithredu CAMPUS² ac mae angen mwy o sicrwydd ynghylch effaith camau gweithredu a gymerwyd. Lle y bo'n briodol, mae'r Bwrdd wedi nodi dyhead i bapurau eglurhaol gynnwys asesiad o lefel y sicrwydd a ddarperir. Mae hyn yn helpu awduron papurau i asesu digonolrwydd y sicrwydd a ddarperir a pha un a allai fod angen gweithredu pellach. Fodd bynnag, mae gan yr Ymddiriedolaeth ragor o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod adroddiadau a phapurau eglurhaol yn crynhoi ac yn triongli gwybodaeth yn gyson i helpu i ddarparu ffocws ar faterion allweddol.
- 39 Mae'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i glywed gan gleifion a rhoddwyr. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn dal i ddechrau â stori claf, rhoddwr neu staff. Mae'r pwyllgor hefyd yn cael adborth rheolaidd gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, ceir cyfle i wella papurau'r Bwrdd â storïau defnyddwyr gwasanaethau a staff i alluogi holl aelodau'r Bwrdd i glywed y safbwyntiau hyn. Mae aelodau'r Bwrdd yn cyfranogi mewn Ymweliadau Her 15 Cam³, ac er bod yr ymweliadau'n gyfyngedig cyn mis Ebrill 2024, mae dau ymweliad y mis yn cael eu hamserlennu erbyn hyn.
- 40 Mae'r Bwrdd yn dal i ddangos ymrwymiad cadarnhaol i wella'n barhaus. Fe wnaeth ymddeoliad y Prif Weithredwr ym mis Mehefin 2024 hi'n angenrheidiol cyflwyno newidiadau interim i uwch rolau i leihau ansefydlogrwydd i'r eithaf a chynnal parhad busnes. Gweithiodd y trefniadau interim yn dda. Fe benodwyd Prif Weithredwr newydd ym mis Rhagfyr 2024. Mae cyfnodau cyfredol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd yn eu swyddi i fod i ddod i ben yn 2025. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio cynlluniau recriwtio a bydd angen iddi barhau i adolygu ei rhaglen sefydlu, hyfforddi a datblygu'n gyson i adlewyrchu anghenion aelodau gweithredol ac anweithredol newydd o'r Bwrdd. Mae aelodau'r Bwrdd yn ymrwymedig i adolygu effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau a gwneud newidiadau angenrheidiol.

Systemau sicrwydd corfforaethol

- 41 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:
- goruchwyllo risgiau strategol a chorfforaethol;
 - goruchwyllo perfformiad sefydliadol;
 - goruchwyllo ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a

² Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol.

³ Mae Ymweliadau Her 15 Cam yn archwilio lleoliadau gofal iechyd trwy lygaid cleifion a pherthnasau.

- thracio argymhellion.

- 42 Canfu fy ngwaith fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth⁴ a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys digon o wybodaeth am y camau lliniaru sydd ar waith a'u heffaith, ond mae cynllun yn ei le i ymdrin ag anghenion y Bwrdd a'i bwyllgorau am wybodaeth.
- 43 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth (TAF), ond mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau ei fod yn darparu eglurder ynghylch y camau gweithredu sydd ar waith i gau bylchau mewn rheolaethau a sicrwydd a'u heffaith gysylltiedig. Cafodd wyth risg strategol newydd eu cymeradwyo gan y Bwrdd yn 2024, ac fe boblogwyd Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn ddiweddarach â'r risgiau newydd a rheolaethau a sicrwydd cysylltiedig. Mae'r Bwrdd a phwyllgorau perthnasol wedi cael ac ystyried Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth ym mhob un o'u cyfarfodydd yn 2024. Mae Aelodau Annibynnol yn herio'r risgiau strategol yn dda ac yn craffu'n dda arnynt, gydag ymatebion priodol yn cael eu darparu gan swyddogion. Fodd bynnag, ceir amrywioldeb yn yr wybodaeth a gynhwysir ac yn aml mae'r dyddiad targed ar gyfer cau bylchau mewn rheolaethau a sicrwydd yn cael ei hepgor, ac felly hefyd fanylion y cynnydd sy'n cael ei wneud i'w cau. Ceir cyfleoedd hefyd i fod yn fwy clir ynghylch effaith camau gweithredu a gwblhawyd. Ceir cytundeb eang bod angen i'r Bwrdd, ar y cyd, gytuno pa wybodaeth y mae angen ei chynnwys yn Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth i fynd i'r afael â'r bylchau hyn, ac i sicrhau bod trefniadau ategol yn eu lle i ddiweddarau'r wybodaeth yn gyson.
- 44 Trwy 2024 bu bylchau yn yr wybodaeth a gyflwynwyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol; fodd bynnag, ceir arwyddion o welliant a chynllun i sicrhau bod anghenion am wybodaeth yn cael eu diwallu. Yn ystod 2024, fe leihaodd capasiti rheoli risgiau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth am nifer o resymau. O ganlyniad, ers mis Mawrth 2024, roedd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a oedd yn cael ei rhannu yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cynnwys adroddiad a echdynnwyd o Datix⁵ yn hytrach na'r adroddiad a gynhyrchwyd â llaw. O ganlyniad, roedd yr wybodaeth a oedd wedi ei chynnwys ym mhob rhifyn⁶ o'r adroddiad ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn amrywio. Mynegodd Aelodau Annibynnol bryderon ynghylch hepgor gwybodaeth am berchnogion risg, tueddiadau o ran sgoriau risgiau, camau gweithredu CAMPUS, a gwybodaeth i ddangos a yw camau gweithredu i liniaru risgiau'n effeithiol. Yn gadarnhaol, mae fersiynau o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a rannwyd yn y ddau gylch diwethaf o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau wedi dangos arwyddion o welliant. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu

⁴ Mae Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn cyfateb i'r hyn y byddem ni'n ei ystyried yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, sef dogfen allweddol a ddefnyddir i gofnodi ac adrodd wrth y Bwrdd ar amcanion, risgiau, rheolaethau a sicrwydd allweddol sefydliad.

⁵ System hysbysu ynghylch digwyddiadau a rheoli risgiau a ddefnyddir gan sefydliadau gofal iechyd yw Datix.

⁶ Wrth hyn, rydym yn golygu ar gyfer fersiynau mis Mawrth, mis Mai a mis Gorffennaf a rannwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau.

sicrhau, yn y dyfodol, bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn gyson yn cynnwys camau gweithredu CAMPUS ac yn rhoi disgrifiad gwell o'r risg yn hytrach na'r rheswm pam fo'r risg wedi dod i fodolaeth.

- 45 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei dull o adrodd, arfer goruchwyliaeth a chraffu ar berfformiad sefydliadol. Mae'r atebolrwydd am adolygu perfformiad a mynychder hynny ar lefelau gwasanaethau, rheolwyr, pwyllgorau, a'r Bwrdd yn dal i fod yn briodol. Ceir trafodaethau a her effeithiol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau lle nad yw perfformiad ar y trywydd iawn, ac fe geir ymatebion llawn, agored a phriodol.
- 46 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â threfniadau da ar gyfer goruchwyllo a chraffu ar gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion archwilio ac adolygu. Mae'r offeryn tracio, sy'n cynnwys yr argymhellion sy'n hwyr yn cael eu rhoi ar waith ac sydd wedi cael eu cau, yn cael ei adolygu ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r argymhellion a gaewyd unwaith y mae wedi ei sicrhau bod y camau gweithredu a gymerwyd yn briodol. Ddwywaith y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio'n cael yr offeryn tracio llawn, sydd hefyd yn cynnwys argymhellion nad ydynt yn hwyr yn cael eu rhoi ar waith. Ceir offeryn tracio ar wahân ar gyfer Gwella Ansawdd a Diogelwch i dracio cynnydd argymhellion a chamau gweithredu sy'n ymwneud ag ansawdd, diogelwch a pherfformiad gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys argymhellion arolygiaethau a chyrrff rheoleiddio, er bod cynlluniau i gynnwys argymhellion o adroddiadau/adolygiadau eraill, megis Ymweliadau Her 15 Cam, ymweliadau Llais⁷, adolygiadau gan gymheiriaid, ac adroddiadau a gomisiynwyd yn allanol.

Dull cynllunio corfforaethol

- 47 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull cynllunio corfforaethol cadarn. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:
- cynhyrchu a goruchwyllo datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI); a
 - goruchwyllo'r modd y cyflawnir strategaethau a chynlluniau corfforaethol.
- 48 Canfu fy ngwaith fod yr Ymddiriedolaeth yn dal i fod â threfniadau effeithiol ar gyfer cynhyrchu, a goruchwyllo a chraffu ar ddatblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol.
- 49 Mae'r broses gynllunio'n cael ei chydlyn gan Dîm Cynllunio Strategol yr Ymddiriedolaeth, yn cael ei chefnogi gan Reolwyr Cynllunio ym mhob isadran yn ogystal â'r Tîm Cyllid ac yn cael ei goruchwyllo gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol. Cafodd CTCI yr Ymddiriedolaeth 2024-27 ei oleuo gan ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol, comisiynwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae wedi ei fframio o fewn strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth, 'Cyrchfan 2033', ac mae'n adnabod y risgiau i'w gyflawni. Mae'r CTCI 2024-27 yn nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol i

⁷ Corff statudol i gynrychioli ac eirioli ar ran cleifion, a sefydlwyd yn 2023 i ddisodli Cynghorau Iechyd Cymuned, yw Llais.

drawsnewid gwasanaethau, lleihau anghydraddoldebau, gwella gwasanaethau digidol, cynyddu darpariaeth gwasanaethau canser allgymorth, datblygu gwasanaethau cynaliadwy, a chyflawni rhaglenni seilwaith. Bu ymgysylltu ar lefel y Bwrdd trwy gydol y broses o ddatblygu CTCI 2024-27, ac fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

- 50 Mae CTCI 2024-27 yn cynnwys amcanion a chamau gweithredu eglur, a ategir gan raddfeydd amser ar gyfer eu cyflawni a deilliannau mesuradwy bwriadedig, gyda threfniadau da ar gyfer goruchwyllo a chraffu ar y modd y cânt eu cyflawni. Yn gadarnhaol, mewn perthynas â Gwasanaethau Canser Felindre, a Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblannu Cymru, canfuom fod pob amcan/cam gweithredu ategol yn cynnwys manteision bwriadedig mesuradwy priodol. Er nad oedd CTCI 2024-27 yn cynnwys eglurder ynghylch y deilliannau bwriadedig ar gyfer blaenoriaethau gwasanaethau galluogi, rydym yn nodi bod y rhain wedi cael eu mynegi yn yr adroddiad cynnydd ar gyfer chwarter 1 2024-25. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ymgorffori mwy o amlygrwydd i flaenoriaethau gwasanaethau galluogi yn CTCI 2025-28. Cyflwynir adroddiadau cynnydd chwarterol ar gyfer y CTCI i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad a'r Bwrdd. Mae angen o hyd i'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y mae'n darparu eglurder ynghylch y cwestiwn a yw effeithiau bwriadedig y CTCI wedi cael neu yn cael eu cyflawni.

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

- 51 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:
- cyflawni ei amcanion ariannol;
 - goruchwyllo cynllunio ariannol;
 - goruchwyllo rheolaeth ariannol; a
 - goruchwyllo perfformiad ariannol.
- 52 Canfu fy ngwaith fod yr Ymddiriedolaeth yn dal i fod â threfniadau da ar gyfer cynllunio ariannol ac ar gyfer rheoli a monitro ei sefyllfa ariannol.
- 53 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol yn 2023-24, gan adrodd ar warged bach o £42,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd ariannol statudol i adennill costau dros y cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24 hefyd, gan adrodd ar warged o £159,000 ar y cyfan dros dair blynedd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn adennill costau yn 2024-25.
- 54 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod â dull cadarn o gynllunio ariannol a chyflawni arbedion. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Ariannol mantoledig ar gyfer 2024-27 a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2024. Mae'r cynllun yn adnabod heriau arwyddocaol ymateb i'r galw cynyddol disgwyledig am wasanaethau gan hefyd ymdrin â nifer o ddatblygiadau strategol pwysig fel rhan o raglen drawsnewid yr Ymddiriedolaeth. Ar gyfer 2024-25, mae'r Ymddiriedolaeth wedi pennu gofyniad

arbedion o £2.875 miliwn, y mae £1.267 miliwn ohono'n gylchol ac £1.608 miliwn yn anghylchol.

- 55 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod â phrosesau cadarn i sicrhau y cydymffurfir â'i Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'i Chynllun Cadw a Dirprwyo Cyfrifoldebau, ac i hysbysu ynghylch achosion o dorri'r rhain a'u herio. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn dal i fod â rheolaethau da i reoli ei chyllid a goruchwyllo'r sefyllfa ariannol ar lefel cyfarwyddiaethau. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da yn unol â'r graddfeydd amser gofynnol, a gafodd eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024.
- 56 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod â threfniadau da i fonitro ei sefyllfa ariannol ac adrodd arni. Cyflwynir adroddiadau ariannol cynhwysfawr i holl gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad. Mae Aelodau Annibynnol yn dal i graffu a herio'n dda mewn perthynas â sefyllfa ariannol y sefydliad yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.

Adolygiad o drefniadau arbed costau

- 57 Fe archwiliodd fy adolygiad pa un a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull effeithiol o adnabod, cyflawni a monitro cyfleoedd cynaliadwy i arbed costau. Fe waeth ystyried effaith y trefniadau hyn ar sefyllfa diwedd blwyddyn yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2023-24 ac amlygu ble y gall fod angen cryfhau trefniadau ar gyfer 2024-25 a'r tu hwnt i hynny.
- 58 Canfu fy ngwaith fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau gweddol effeithiol ar gyfer adnabod, cyflawni a monitro ei chyfleoedd i arbed costau. Fodd bynnag, mae dibyniaeth barhaus ar arbedion anghylchol ac ansicrwydd ynghylch incwm cytundebau hirdymor yn achosi risgiau i'w chynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.
- 59 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth dda am y ffactorau sy'n dylanwadu ar ei chostau a nodir yn glir yn ei CTCI 2024-27 a'i Chynllun Ariannol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr amgylchedd ariannol anodd y mae'r sefydliad, a'r GIG ehangach yng Nghymru, yn gweithredu ynddo. Mewn ymateb, mae wedi sefydlu trefniadau gwell ar gyfer monitro cyllid a buddsoddiadau. Nod y rhain yw cryfhau ei hamgylchedd rheoli a sicrhau atebolrwydd ychwanegol ymhlith ei Thîm Gweithredol ar draws nifer o fesurau ariannol allweddol⁸ gyda golwg ar ymdrin â risgiau strategol i gynaliadwyedd a gwerth yr Ymddiriedolaeth yn yr hirdymor. Roedd Cynllun Cyllid yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2024-25 yn nodi sut y gallai'r sefydliad helpu i wella sefyllfa ariannol GIG Cymru ar y cyfan ac roedd wedi'i fwriadu i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant mewnol y sefydliad ac effeithlonrwydd a chynhyrchiant cyrff y GIG ar lefel ehangach.
- 60 Mae gan yr Ymddiriedolaeth hanes da o fynd ymhell y tu hwnt i'w thargedau arbedion cyffredinol. Fodd bynnag, mae wedi cyflawni hyn yn bennaf trwy gyflawni

⁸ Mae mesurau ariannol allweddol yn cynnwys: cyflawni arbedion, rheoli costau, dewisiadau ac opsiynau sy'n parhau tuag at bwysau ariannol yn y system, ac effeithiau penderfyniadau ynglŷn â gwariant gan ystyried ansawdd, diogelwch a phrofiad.

arbedion anghylchol. Er bod cyfran yr arbedion cylchol wedi cynyddu'n gyson hyd at 2021-22, bu gostyngiad graddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda dim ond 41% o'r arbedion a gyflawnwyd yn 2023-24 yn rhai cylchol. Fodd bynnag, yn 2023-24, roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu mynd ati'n gyflym i adnabod arbedion ychwanegol a oedd yn gyfanswm o £2.3 miliwn mewn ymateb i gais Llywodraeth Cymru bod cyrff iechyd yn cefnogi gwelliant yn sefyllfa ariannol GIG Cymru ar y cyfan. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau eglur i droi ei gofynion arbedion lefel uchel yn gynlluniau arbedion y gellir eu rhoi ar waith.

- 61 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer monitro ei risgiau ariannol allweddol a goruchwyllo'r broses o gyflawni arbedion. Adroddir ar berfformiad ariannol wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad a'r Bwrdd, gyda diweddariadau rheolaidd yn darparu trosolwg fanwl ar gyflawni arbedion.

Adolygiad o drefniadau ar gyfer pennu a monitro amcanion llesiant

- 62 Fe wnaeth fy ngwaith archwilio i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant. Fe wnaeth ystyried trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer adolygu ei hamcanion llesiant, defnyddio gwybodaeth briodol i benderfynu a yw'r amcanion cyfredol yn dal i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a monitro cynnydd.
- 63 Canfu fy ngwaith fod yr Ymddiriedolaeth wedi diweddarau ei hamcanion llesiant ar ôl cyfnod hir heb adolygiad. Fodd bynnag, ni roddodd ystyriaeth lawn i'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud hynny. Yn y dyfodol, mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfle i ymgorffori'r amcanion llesiant yn ei fframwaith cynllunio corfforaethol i sicrhau eu bod yn dod yn ganolog i siapio penderfyniadau ynglŷn â darparu gwasanaethau, trawsnewid gwasanaethau, dyrannu adnoddau, a phennu targedau arbedion.
- 64 Pennodd yr Ymddiriedolaeth ei hamcanion llesiant am y tro cyntaf yn 2015. Fodd bynnag, nid oedd terfyn amser yn gysylltiedig â hwy, ac roeddent yn benagored. Yn 2024, fe ddechreuodd yr Ymddiriedolaeth waith i bennu amcanion llesiant newydd. O ganlyniad i'r gwaith hwn fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ddiwygio geiriad dau o'r amcanion llesiant a oedd yn bodoli eisoes, gyda'r pump arall yn aros yn ddigyfnewid.
- 65 Mae amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth ar wahân ac yn wahanol i nodau strategol yr Ymddiriedolaeth. Nid yw'r amcanion llesiant yn cynnwys unrhyw gamau na gweithredoedd tanategol sy'n darparu eglurder ynghylch sut a phryd y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cyflawni, sut y bydd yn mesur y modd y mae'n eu cyflawni, a beth yw'r effaith a ddymunir. Mae cyflawni'r amcanion llesiant diwygiedig yn dal i fod yn benagored. Mae hyn yn groes i ganllawiau statudol⁹ sy'n annog cyrff cyhoeddus i bennu amcanion llesiant trwy eu proses cynllunio

⁹ Llywodraeth Cymru, [SPSF:1 Canllawiau Craidd Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol](#)

corfforaethol a'u hadlewyrchu mewn cynllun corfforaethol (neu ddogfen gyfatebol) fel bod datblygu cynaliadwy'n cael ei wreiddio a'i fod wedi'i fwriadu i lywio gweithgarwch ar draws y sefydliad a diffinio 'sut' y 'bydd yn gweithio'.

- 66 Ni fanteisiodd yr Ymddiriedolaeth ar y gwaith a wnaeth yn 2022-23 i ddatblygu strategaeth weithredol ddeng mlynedd newydd (gyda strategaethau galluogi ategol) i wreiddio'r broses o gyflawni'r amcanion llesiant mewn cynlluniau corfforaethol, megis y CTCl. Fodd bynnag, wrth adolygu ei hamcanion llesiant, fe sefydlodd yr Ymddiriedolaeth 'linell sylfaen' fewnol o'r cynnydd a wnaed i gyflawni'r amcanion llesiant a oedd yn bodoli eisoes.
- 67 Mae amcanion yr Ymddiriedolaeth yn strategol ac yn hirdymor o ran eu natur ac yn ymwneud â gwahanol agweddau ar lesiant. Fodd bynnag, bydd hi'n hollbwysig i'r Ymddiriedolaeth sicrhau eu bod yn cael eu hymgorffori'n effeithiol mewn trefniadau cynllunio craidd er mwyn iddi eu cyflawni. Gellid cyflawni hyn, er enghraifft, trwy fynd ati ymhellach i ddatblygu'r llinell sylfaen o ran cynnydd i gyfeirio at waith a nodir mewn cynlluniau eraill, megis y CTCl. Fel arall, ac yn unol â chanllawiau statudol ac arfer da, gallai'r Ymddiriedolaeth integreiddio ei hamcanion strategol a'i hamcanion llesiant. Byddai hyn yn helpu i sicrhau mai'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol ar gyfer pob cam gweithredu a gymerir gan staff yn ddyddiol.
- 68 Roedd y gwaith i bennu amcanion llesiant newydd yn cynnwys dadansoddiadau SWOT¹⁰ a PESTLE¹¹, a ddarparodd grynodedau lefel-uchel o ffactorau mewnol ac allanol i oleuo anghenion, risgiau, a chyfleoedd a oedd yn berthnasol i bob amcan llesiant. Datblygwyd arolwg i staff, defnyddwyr gwasanaethau a phartïon eraill â buddiant ei gwblhau. Mae'n siomedig mai dim ond nifer fach o ymatebion a gafodd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r gyfradd ymateb isel yn awgrymu y bydd hi'n bwysig i'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gall gyflawni lefelau ymgysylltu uwch pan fydd yn adolygu ei hamcanion llesiant nesaf.
- 69 Mae trefniadau cynllunio corfforaethol a chynllunio ariannol cyffredinol yr Ymddiriedolaeth yn effeithiol, sy'n rhoi ystyriaeth dda i newidiadau sylweddol yn yr amgylchedd gweithredu ac i farn rhanddeiliaid. Tanategir ei Chynlluniau Tymor Canolig Integredig gan gynlluniau adnoddau sy'n nodi'n glir beth yw'r risgiau i'w cyflawni. Felly, byddai rhoi ystyriaeth ragweithiol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel rhan o drefniadau cynllunio corfforaethol presennol yn helpu i gryfhau'r trefniadau hynny ymhellach trwy sicrhau ystyriaeth i sut y gall yr Ymddiriedolaeth gyflawni effaith ar draws y nodau llesiant.
- 70 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnabod cyfres o ddangosyddion perfformiad posibl y gellid eu defnyddio i dracio cynnydd tuag at gyflawni amcanion llesiant. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn wir bod angen i'r Ymddiriedolaeth nodi mesurau perfformiad CAMPUS sy'n tanategu ei hamcanion llesiant. Er bod CTCl yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys mesurau perfformiad CAMPUS, maent wedi'u

¹⁰ SWOT – Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, a Bygythiadau.

¹¹ PESTLE – Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasegol, Technolegol, Cyfreithiol, ac Amgylcheddol.

strwythuro ar sail blaenoriaethau'r CTCl ac nid yr amcanion llesiant. Ar ben hynny, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn rhoi disgrifiad clir o fesurau perfformiad strategol i fonitro'r deilliannau hirdymor y mae'n ceisio eu cyflawni trwy gyflawni ei hamcanion llesiant.

- 71 Hyd yma, mae dull yr Ymddiriedolaeth o adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni ei hamcanion llesiant wedi bod yn gyfyngedig i grynodedig naratif byr o feysydd gweithgarwch ar draws yr Ymddiriedolaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi ddatblygu asesiad mwy holistaidd a chytbwys o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'i hamcanion llesiant ar draws y sefydliad, a hwnnw'n cael ei danategu gan fesurau perfformiad. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dynodi ei bwriad i adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni amcanion llesiant mewn adroddiad ar wahân yn y dyfodol. Byddai hyn yn helpu i roi mwy o amlygrwydd i'r asesiad o gynnydd ac yn rhoi mwy o amser a ffocws ar gyfer herio a chraffu. Fodd bynnag, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried a allai dynodi ei hamcanion strategol fel ei hamcanion llesiant ddangos eu bod yn llywio gweithgarwch ar draws y sefydliad, gan barhau i wella adolygiadau blynyddol a symleiddio adroddiadau blynyddol.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 2024.

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol	Gorffennaf 2024
Barn ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol	Gorffennaf 2024
Archwiliad o'r Cyfrifon – Adroddiad Adendwm	Medi 2024
Adroddiad ar yr archwiliad o'r cronfeydd elusennol	Ionawr 2025
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Asesiad Strwythuredig 2024	Hydref 2024
Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau	Tachwedd 2024
Pennu amcanion llesiant	Tachwedd 2024
Arall	
Cynllun Archwilio 2024	Gorffennaf 2024

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth-am-arian cenedlaethol yn 2024 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau sy'n rhychwantu'r sector cyhoeddus cyfan. Ariennir yr astudiaethau hyn yn nodweddiadol trwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith o ran craffu ar wariant cyhoeddus. Mae'r adroddiadau ar gael ar [wefan Archwilio Cymru](#).

Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo

Ceir nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan amcangyfrifir cwblhau'r gwaith.

Adroddiad	Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau
Adolygiad Dilynol o Lywodraethu Ansawdd	Mai 2025
Adolygiad o Drawsnewid Digidol	Mai 2025

Atodiad 2

Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2024 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £258,671 (heb gynnwys TAW). Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r sefyllfa ffioedd wrth i'm gwaith dynnu at ei derfyn ond rwy'n disgwyl tâl ychwanegol bach am y gwaith ar y Cyfrifon Ariannol. Byddaf yn trafod hwn gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid cyn penderfynu'n derfynol ar unrhyw ffioedd. Wedi'i chynnwys yn y ffi a nodir uchod mae'r gyfran o gost ein gwaith archwilio a gyflawnir ar y cydwasanaethau a ddarperir ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. £2,244 yw cyfanswm y gost hon.

Atodiad 3

Risgiau mewn perthynas â'r archwiliad o'r cyfrifon

Arddangosyn 4: risgiau mewn perthynas â'r archwiliad o'r cyfrifon

Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2024 yn nodi'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol a/neu afreoleidd-dra mewn perthynas â'r archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2023-24. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
Gwrthwneud gan reolwyr Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].	Bydd y tîm archwilio: - yn profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; - yn adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; ac - yn gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.	Cafodd y gwaith archwilio arfaethedig ei gwblhau ac ni chododd unrhyw faterion.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
Canolfan Ganser Newydd Felindre Yn ddiweddar mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau'r broses gaffael gyda'r consortia sy'n dylunio, adeiladu a chynnal a chadw Canolfan Ganser newydd Felindre. Mae gwaith galluogi sylweddol a gwariant cyfalaf cysylltiedig yn digwydd i gefnogi hyn hefyd. O ystyried y gwerthoedd sylweddol dan sylw, ceir risg y byddant yn cael eu cyflwyno a/neu eu datgelu yn anghywir yn y datganiadau ariannol.	Byddwn yn cael dealltwriaeth fanwl am y cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth o ran y Ganolfan Ganser newydd ac yn adolygu'r driniaeth gyfrifyddu a datgeliadau ynghylch y: - trefniant cytundebol; a'r - gwaith galluogi cysylltiedig. Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn benodol â'n harchwiliad o'r cyfrifon yn yr Ymddiriedolaeth ac mae ar wahân i unrhyw waith ehangach y gall yr Archwilydd Cyffredinol benderfynu ei wneud ar Ganolfan Ganser newydd Felindre.	Cwblhawyd yr holl waith archwilio arfaethedig, ac nid adnabuwyd unrhyw faterion cyfrifyddu na datgelu arwyddocaol yn natganiadau ariannol 2023-24.
Incwm Masnachol Cafodd yr Ymddiriedolaeth lefel sylweddol o incwm masnachol gan gwmni fferyllol yn ystod 2023-24 mewn perthynas â chyfranogiad yr Ymddiriedolaeth mewn prosiect ymchwil a datblygu. Yn sgîl natur newydd yr incwm ceir risg na fydd yr incwm hwn yn cael ei drin yn briodol yn natganiadau ariannol 2023-24.	Byddwn yn adolygu'r driniaeth gyfrifyddu a gafodd yr incwm hwn yn y datganiadau ariannol.	Cafodd ein gwaith archwilio arfaethedig ei gwblhau ac ni chododd unrhyw faterion.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
Partïon Cysylltiedig a Chydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion Rwy'n barnu bod rhai o'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, megis partïon cysylltiedig a chydnabyddiaeth ariannol, yn berthnasol o ran eu natur, gyda lefel perthnasedd is o lawer. Felly mae'r datgeliadau hyn o ran eu hanfod yn fwy tueddol i gamddatganiadau perthnasol.	Byddaf yn cynyddu manylder fy archwiliad o bob maes sy'n berthnasol o ran eu natur, i sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir.	Fel a amlinellir ym mharagraff 25 o'r adroddiad hwn, adnabuwyd fod taliad ex gratia o £39,745 wedi cael ei wneud i uwch gyflogai na chafodd ei gymeradwyo yn unol â'r fframwaith awdurdodau, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ynglŷn â rheoleidd-dra'r trafodiad ariannol hwnnw. Hefyd, o ganlyniad i'n gwaith yn y meysydd hyn, fe wnaed cywiriadau i'r datgeliadau yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'r nodiadau datgelu ynghylch Trafodiadau Partïon Cysylltiedig.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
Cronfa Risg Cymru Mae'r Ymddiriedolaeth yn lletya Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru ar ran cyrff GIG Cymru mewn perthynas â chostau sy'n gysylltiedig â setlo hawliadau am esgeulustod clinigol, gan gynnwys achosion setliad strwythuredig. O ganlyniad i werth yr hawliadau hyn sy'n nodweddiadol uchel, mae'r cyfanswm y gwerth yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth ymhell uwchlaw ein lefel perthnasedd. O ganlyniad, ceir risg gynhenid y gallai unrhyw wallau o ran cyflwyno a datgelu'r rhwymedigaethau hyn yn y cyfrifon blynyddol fod yn berthnasol.	Byddwn yn cynnal profion archwilio ac yn ceisio sicrwydd o'r gwaith a wnaed gan archwilwyr eraill GIG Cymru i gael sicrwydd bod y rhwymedigaethau'n berthnasol gywir.	Cafodd ein gwaith archwilio arfaethedig ei gwblhau, ac fe ddiwygiwyd y cyfrifon o £4.587 miliwn i leihau Darpariaeth Cronfa Risg Cymru a'r dyledwr cyfatebol a oedd yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr addasiad hwn yn ofynnol o ganlyniad i ddyblygu achos a ddaeth yn Setliad Strwythuredig yn y flwyddyn.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
LaSPaR O 1 Rhagfyr 2023, mae'r Gofrestr Colledion a Thaliadau Arbennig (LaSPaR) a ddefnyddir i gyfrifo'r colledion a balansau llawer o'r darpariaethau yn y cyfrifon wedi cael ei datgomisiynu. Ar gyfer gweddill 2023-24, bydd taenlen Excel enghreifftiol yn cael ei defnyddio i gofnodi colledion, taliadau arbennig ac i gyfrifo balansau diwedd blwyddyn. Ceir risg bod y trafodiadau a balansau sy'n gysylltiedig â cholledion a thaliadau arbennig wedi eu camddatgan yn berthnasol oherwydd gwallau wrth drosglwyddo data rhwng y system LaSPaR a'r model Excel neu oherwydd ymarferoldeb y system Excel.	Byddwn: - yn profi cyflawnrwydd a chywirdeb y broses o drosglwyddo data o'r system LaSPaR i'r taenlenni Excel; - yn ystyried dyluniad a gweithrediad rheolaethau i liniaru gwallau; - yn adolygu'r daenlen diwedd blwyddyn i sicrhau nad oes gwallau na materion arwyddocaol yn y modd y crynhowyd ffigyrau ar gyfer y cyfrifon; ac - yn adolygu trafodiadau yn ôl i dystiolaeth ategol (e.e. adroddiadau Quantum) ar sail samplau.	Cafodd ein gwaith archwilio arfaethedig ei gwblhau ac ni chododd unrhyw faterion.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.